Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Practis Deintyddol Ffordd Rhiwabon

18 Awst 2015

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o’r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk


Digidol ISBN 978-1-4734-5196-4
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 2

2. Methodoleg ..... 2

3. Cyd-destun ..... 4

4. Crynodeb ..... 5

5. Canfyddiadau ..... 6

Profiad y Claf ..... 6

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ..... 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 12

Ansawdd yr Amgylchedd ..... 15

6. Y Camau Nesaf ..... 17

Atodiad A ..... 18

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Ffordd Rhiwabon, 96 Ffordd Rhiwabon, Wrecsam, LL13 7PH, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 18 Awst 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Ffordd Rhiwabon yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 12,000 o gleifion – yn bennaf yn ardal Wrecsam, ond mae rhai cleifion yn teithio o ardaloedd eraill. Ar adeg ein harolygiad, roedd dau o'r deintyddion yn berchen ar y practis, a oedd o dan yr enw Ryan & Naylor Limited ond yn gweithredu fel Practis Deintyddol Ffordd Rhiwabon. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod perchnogaeth y practis ar fin cael ei throsglwyddo i un o berchnogion y practis/deintyddion.

Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Practis Deintyddol Ffordd Rhiwabon yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau'r GIG ond hefyd yn cynnig triniaethau deintyddol preifat. Mae'n bractis hyfforddi ar gyfer deintyddion gyda Deoniaeth Cymru (Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion). Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd un deintydd wedi gadael ar ôl cwblhau blwyddyn o ymarfer, ac roedd un arall, a oedd yn ddeintydd blwyddyn sylfaen, yn dechrau ym mis Medi 2015.

Mae tîm y practis hefyd yn cynnwys wyth deintydd, un hylenydd deintyddol, deg nyrs ddeintyddol (roedd y rhain yn cynnwys tair nyrs o dan hyfforddiant ar adeg ein harolygiad), bedwar o weinyddwyr/derbynyddion, un rheolwr busnes, rheolwr practis, a dirprwy reolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau a thriniaethau rheolaidd, gan gynnwys sganiau pelydr-X, gwaith ar sianel y gwreiddyn, a thynnu dannedd
- Coronau, dannedd gosod a phontydd
- Cyngor ar hylendid y geg a thriniaethau, gan gynnwys tynnu cen a sgleinio
- Gwasanaethau orthodontig i oedolion
- Deintyddiaeth breifat, gan gynnwys gwynnu dannedd, mewnblaniadau deintyddol (gan un o'r deintyddion mewn ymgynghoriad ag arbenigwr ar fewnblaniadau deintyddol), llenwadau cosmetig, corunau ac argaenau

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn archwilio sut mae Practis Deintyddol Ffordd Rhiwabon yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Roedd yr adborth a gawsom gan gleifion yn dangos eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau yr oeddent wedi eu derbyn. Yn gyffredinol, gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion, a oedd yn hawdd ei chyrraedd ac yn hygyrch. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod rhestr lawn o wasanaethau preifat yn cael ei chynnal ac ar gael i gleifion. Rydym wedi argymell bod y practis yn ffurfioli ei broses ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Dylai'r adborth hwn, lle bo hynny'n briodol, gael ei ddefnyddio i lywio newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol, ar y cyfan, yn dda. Roedd systemau monitro a chynnal a chadw ar waith i sicrhau bod y cyfarpar yn parhau i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom y gellid gwella'r broses rheoli ac atal heintiau ymhellach mewn rhai meysydd, felly rydym wedi cynnwys y rhain yn ein cynllun gwella. Gwelsom hefyd fod angen i un neu ddau o'r deintyddion wella'r ffordd roeddent yn cadw cofnodion, ac rydym wedi'u hysbysu o'r mater hwn.

Ar adeg ein harolygiad, roedd y practis yng nghanol y broses o newid perchnogaeth. Roedd rheolaeth gyffredinol y practis yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses hon. Gwelsom fod rhai meysydd, er enghraifft arfarniadau staff a chyfarfodydd tîm, yn hwyr yn ôl yr amserlen.

Fodd bynnag, ar y cyfan, gwelsom fod systemau a gweithdrefnau effeithiol ar waith. Cawsom groeso cynnes gan yr holl staff, a gwnaeth yr amcanion roedd darpar berchennog unigol y practis a’r rheolwr busnes yn eu rhagweld greu argraff fawr arnom. Cymerwyd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'n hargymhellion, neu eu symud rhagddynt, a gwnaethom ganmol yr agwedd hon.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Roedd yr adborth a gawsom gan gleifion yn dangos eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau yr oeddent wedi eu derbyn. Yn gyffredinol, gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion, ac yn hawdd ei chyrraedd ac yn hygyrch. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod rhestr lawn o wasanaethau preifat yn cael ei chynnal ac ar gael i gleifion. Rydym wedi argymell bod y practis yn ffurfioli ei broses ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Dylai'r adborth hwn, lle bo hynny'n briodol, gael ei ddefnyddio i lywio newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth.**

Cadarnhaodd pob un o'r 18 claf a ymatebodd i holiadur AGIC fod tîm y practis fel arfer yn rhoi croeso iddynt, ac yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu triniaeth. Roeddent hefyd yn fodlon ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Roedd nifer o'r cleifion yn defnyddio geiriau megis "iawn" a "bob amser" wrth iddynt ateb y cwestiynau hyn. Rydym wedi cynnwys enghreifftiau o'r sylwadau a wnaed gan rai o'r cleifion:

> *"Nid oeddwn i wedi mynd at y deintydd am nifer o flynyddoedd … roeddwn i'n nerfus iawn pan ddes i'n gyntaf, ond rhoddodd y staff groeso mawr imi a gwneud imi ymlacio … mae hyn wedi parhau gyda'r deintydd hwn.* Dw i'n ddiolchgar iawn am hyn."

> *"Dw i'n glaf nerfus, ond mae'r staff bob amser yn rhoi croeso cyfeillgar imi ac yn gwneud imi ymlacio*. *Gwasanaeth ardderchog*."

Canfuom nad oedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn. Ychwanegodd ychydig o gleifion na fu'n rhaid iddynt gwyno, neu y byddent yn ffonio. Nid oedd rhai o'r cleifion yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau. Gwnaethom drafod y canfyddiadau hyn â'r rheolwyr a chanfod eu bod wedi gweithredu ar yr adborth hwn ers iddynt dderbyn yr holiadur. Felly, fel y gwelsom, roedd y wybodaeth hon bellach wedi'i harddangos yn glir yn y dderbynfa, yn ogystal ag yn yr ystafell aros, yn y daflen wybodaeth i gleifion, ac ar y wefan. Yn ogystal, roedd rhif ffôn y gwasanaeth y tu allan i oriau wedi'i arddangos ar bwys mynedfa'r adeilad, a dywedodd y derbynnydd wrthym fod y rhif wedi'i gynnwys ar y neges peiriant ateb pan fydd y practis ar gau.

Dywedodd wyth o'r cleifion eu bod wedi profi oediadau ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Fodd bynnag, gwnaethant i gyd ychwanegu sylwadau, gan nodi nad oedd yr oediadau'n hir, ac o'u rhan nhw nid oeddent wedi achosi problem. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod amseroedd aros cleifion yn cael eu

monitro'n agos, a bod cofnod o unrhyw sylwadau'n cael ei gynnal at y diben hwn.

Dywedodd un o'r cleifion wrthym ei fod wedi derbyn neges destun gan y practis i'w atgoffa am ei apwyntiad, tua dau ddiwrnod ymlaen llaw, yn ogystal â derbyn cerdyn apwyntiad. Roedd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth hwn. Fe'n hysbyswyd, pe bai staff yn gwybod cyfeiriad e-bost y claf, y byddent anfon neges atgoffa trwy e-bost. Unwaith eto, gwnaethom gydnabod bod yr arfer hwn yn enghraifft o wasanaeth da.

Gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion ar gael mewn maint safonol a hefyd mewn ffont mwy – ac o'r herwydd yn addas ar gyfer rhai pobl sydd â nam ar eu golwg. Gwnaeth y rheolwyr gytuno i ymchwilio i'n hargymhelliad i ystyried ffyrdd eraill o wella cyfathrebu'n gyffredinol – er enghraifft, ystyried fformatau gwahanol ar gyfer pobl mae eu defnydd o'r Saesneg yn gyfyng.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod cleifion yn cael eu gwahodd i ofyn am ffurflen o'r dderbynfa, pe baent am wneud unrhyw awgrymiadau neu sylwadau ynglŷn â'r gwasanaeth. Rhoddwyd copi o'r ffurflen hon inni, a oedd yn gofyn i gleifion am eu barn ar wahanol agweddau ar y gwasanaeth, gan gynnwys y system apwyntiad, yr wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn, a sut roeddent yn cael eu trin gan staff. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw ffurflenni wedi'u cwblhau, nac unrhyw dystiolaeth i ddangos bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Felly, rydym wedi argymell y practis i ffurfioli ei system ar gyfer y broses hon.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid datblygu proses ffurfiol ar gyfer asesu a gwerthuso adborth gan gleifion ynglŷn â'r gwasanaeth. Lle bo hynny'n bosibl, dylai'r practis ddefnyddio adborth cleifion i yrru newidiadau a gwelliannau a dylanwadu arnynt.***

Fe’n hysbyswyd bod y rhan fwyaf o'r triniaethau deintyddol yn cael eu darparu o dan drefniadau'r GIG. Fodd bynnag, roedd cynlluniau ar waith i hyrwyddo'r triniaethau preifat roedd y practis yn eu cynnig, gan gynnwys deintyddiaeth gosmetig. Gwelsom fod prisiau ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau deintyddol yr hylenydd wedi’u harddangos. Fodd bynnag, roedd y practis hefyd wedi dechrau rhaglen "Gwenu am Chwe Mis" ar gyfer unioni ac ail-alinio dannedd i gleifion sy'n oedolion, ac mae'n darparu gwasanaethau mewnblaniadau deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y rhestr o'r prisiau ar gyfer y gwasanaethau preifat hyn wrthi'n cael ei llunio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid sicrhau bod rhestr o'r prisiau am y gwasanaethau deintyddol preifat mae'r practis yn eu cynnig ar gael i gleifion cyn gynted ag y bo modd.***

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol, ar y cyfan, yn dda. Roedd systemau monitro a chynnal a chadw ar waith i sicrhau bod y cyfarpar yn parhau i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom y gellid gwella'r broses rheoli ac atal heintiau ymhellach mewn rhai meysydd, felly rydym wedi cynnwys y rhain yn ein cynllun gwella. Gwelsom hefyd fod angen i un neu ddau o'r deintyddion wella'r ffordd roeddent yn cadw cofnodion, ac rydym wedi'u hysbysu o'r mater hwn.**

Wrth inni archwilio'r offer a’r ddogfennaeth radiograffig (pelydr-X), gwelsom fod prosesau a gweithdrefnau boddhaol ar waith ynglŷn â defnyddio a chynnal a chadw'r offer hyn. Nid oedd y nifer o sganiau pelydr-X yn gofyn i staff wisgo bathodynnau dos unigol. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y penderfyniad hwn yn cael ei gynnwys yn asesiad risg amddiffyn rhag ymbelydredd y practis.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod saith o'r deintyddion wedi cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, o fewn y pum mlynedd diwethaf. Dyma'r amlder a argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y dystysgrif ddiweddaraf ar gyfer y deintydd arall dyddiedig mis Mawrth 2010. Gan nad oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael, a bod y deintydd yn absennol, ni allem wirio a oedd wedi derbyn hyfforddiant pellach, a fyddai wedi ei angen yn gynharach eleni er mwyn cydymffurfio â safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Cytunodd y prif ddeintydd i fynd i'r afael â'r mater hwn ar frys, unwaith roedd y deintydd dan sylw yn ôl yn y gwaith.

Roedd gan y practis y gweithdrefnau, y cyfarpar a'r feddyginiaeth a fyddai eu hangen pe bai argyfwng. Gwelsom fod eitemau o fewn eu dyddiadau dod i ben, a bod system ar waith i nodi pan oedd angen newid yr eitemau hyn.

Gwelsom fod gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn cael ei waredu mewn cynwysyddion addas. Roedd contractau ar waith ar gyfer casglu gwastraff.

Gwnaethom ystyried y broses ddadheintio (glanhau a sterileiddio). Gwelsom fod yr ystafell a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pwrpas hwn yn drefnus ac wedi'i gosod yn dda. Canfuom fod y nyrs oedd yn arwain y gwaith o ddadheintio yn wybodus ac yn gydwybodol ynglŷn â dilyn y canllawiau dadheintio ar gyfer practisau deintyddol a amlinellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr ystafell ddadheintio'n cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom argymell bod y practis yn cloi drws yr ystafell ddadheintio pan nad yw'n cael ei defnyddio. Bydd hyn yn cynorthwyo i atal y risg o groes-heintio a allai ddigwydd os yw pobl nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant yn mynd i mewn i'r ystafell.***

**Gwnaethom edrych ar y chwe ystafell driniaeth, a oedd, ar y cyfan, mewn cyflwr da. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried selio'r uniad rhwng y llawr a'r wal (er mwyn atal budred rhag cael ei ddal ar ymylon y llawr) y tro nesaf i'r ystafelloedd triniaeth gael eu hailwampio. Roedd yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ar ddiwrnod yr arolygiad.** Fodd bynnag, roedd rhai o'r offerynnau deintyddol llai, gan gynnwys brwsys a disgiau sgleinio a wadiau gwlân cotwm, wedi cael eu storio yn y droriau heb orchudd. Felly, gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried prynu bocsys storio, ac iddynt gaeadau neu fewnosodiadau, er mwyn amddiffyn offerynnau deintyddol rhag haint.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid ystyried prynu bocsys storio, ac iddynt gaeadau neu fewnosodiadau, ar gyfer droriau'r cabinetau yn yr ystafelloedd triniaeth, er mwyn amddiffyn yr offerynnau deintyddol rhag cael eu halogi.***

Gwelsom nad oedd y bibiau diogelu a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion yn rhai untro. Felly gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried defnyddio bibiau untro ar gyfer cleifion, gan y gall bibiau plastig fod yn anodd eu glanhau'n drwyadl.

Gwelsom fod yr archwiliad rheoli heintiau diwethaf, a gynhaliwyd ym mis Medi 2014, yn fyr iawn ac yn annigonol at ddibenion sicrhau cydymffurfiad â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Fe'n hysbyswyd bod y practis yn bwriadu defnyddio dull llawer mwy manwl sydd ar gael trwy raglen "iComply" ar gyfer practisau deintyddol, gyda mis Medi 2015 wedi'i nodi ar gyfer gorffen y gwaith. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried dull arall, trwy'r Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar gyfer practisau'r GIG yng Nghymru, byddai hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol, cymorth a chyngor.

Gwnaethom edrych ar gofnodion 30 o gleifion, gan samplu tri neu bedwar cofnod ar gyfer pob deintydd, a dau gofnod ar gyfer yr hylenydd. Roedd safon cofnodion y chwe deintydd a'r hylenydd yn dda. Dangosodd un o'r deintyddion system inni y roedd yntau wedi'i rhoi ar waith ar gyfer rhoi gwybodaeth i gleifion ar ôl eu hapwyntiad. Gwnaethom nodi bod hyn yn arfer delfrydol, ac awgrymu

bod yr ymarferwyr eraill yn defnyddio'r system hon. Cytunodd y practis i hybu'r system hon. Argymhellwyd bod y practis yn gwneud y gwelliannau canlynol er mwyn sicrhau bod y deintyddion eraill yn defnyddio'r un system â'r deintydd hwn ar gyfer cadw cofnodion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gellid gwella'r broses cadw cofnodion trwy sicrhau bod pob deintydd yn cynnwys gwybodaeth/manylion perthnasol yn y meysydd canlynol:***

- ***Cydsynio â thriniaeth***
- ***Cynlluniau triniaeth ac opsiynau***
- ***Sgrinio ar gyfer canser***
- ***Sganiau radiograffig, gan gynnwys yr adroddiad, y cyfiawnhad, y radd, ac amlder***
- ***Cyfiawnhad dros alw claf yn ôl (yn unol â chanllawiau NICE)***
- ***Dylid cofnodi manylion anesthetig lleol , er enghraifft rhif y swp a'i ddyddiad dod i ben***

***Dylid adolygu'r system ar gyfer cadw cofnodion clinigol, i sicrhau bod unrhyw ddiffygion yn y broses yn cael eu nodi, ac y gwneir gwelliannau er mwyn gwella safonau a sicrhau cysondeb rhwng y gwahanol ddeintyddion.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Ar adeg ein harolygiad, roedd y practis yng nghanol y broses o newid perchnogaeth. Roedd rheolaeth gyffredinol y practis yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses hon. Gwelsom fod rhai meysydd, er enghraifft arfarniadau staff a chyfarfodydd tîm, yn hwyr yn ôl yr amserlen.**

**Fodd bynnag, ar y cyfan, gwelsom fod systemau a gweithdrefnau effeithiol ar waith. Cawsom groeso cynnes gan yr holl staff, a gwnaeth yr amcanion roedd darpar berchennog unigol y practis a'r rheolwr busnes yn eu rhagweld greu argraff fawr arnom. Cymerwyd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'n hargymhellion, neu eu symud rhagddynt, a gwnaethom ganmol yr agwedd hon.**

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Roedd yn amlwg bod y rhain wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Lle bo angen, roedd y rhain wedi cael eu haddasu ar gyfer y practis. Gwnaethom argymell y gellid defnyddio'r ffurflen llofnodion staff, a oedd wedi cael ei defnyddio ar gyfer rhai polisïau (i sicrhau bod staff wedi eu darllen a'u deall), ar gyfer polisïau allweddol eraill.

Yn ystod y dydd, cawsom sgyrsiau hir gyda'r rheolwr busnes, un o'r deintyddion/perchennog presennol y practis, darpar berchennog y practis, a dirprwy reolwr y practis. Gwnaethom groesawu ein hargymhellion yn frwd, er inni weld bod ganddynt systemau a gweithdrefnau effeithiol ar waith eisoes. Roedd y practis wedi dechrau defnyddio meddalwedd cymhwysiad yn ddiweddar, sydd ar gael i bractisau deintyddol ar gyfer rheoli, dirprwyo a monitro cydymffurfiad â rheoliadau a chanllawiau.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod y mater hwn â rheolwyr, a ddywedodd wrthym eu bod eisoes wedi gwneud cais i gael gwiriadau newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Nid yw'n orfodol i staff y practis gael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol ar y deintydd sy'n cyflogi i wirio bod staff yn addas i'w cyflogi. Gwelsom fod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, ond gwnaethom argymell bod y practis yn trefnu gwiriadau ar gyfer gweddill y staff, yn unol â'r arferion gorau a chanllawiau diogelu. Gwnaethom argymell y dylid defnyddio rhestr wirio o'r holl wiriadau recriwtio y gellir eu defnyddio ar gyfer monitro'r gwiriadau a wnaed a'r dyddiadau ar gyfer eu hadnewyddu.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid ystyried gwiriadau achlysurol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis. Byddai'r arfer hwn hefyd yn unol â'r Canllawiau ar Ddiogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed mewn Ymarfer Deintyddol Cyffredinol, a gyhoeddwyd gan y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2011.***

Gwelsom fod y rhaglen arfarnu staff yn hwyr, er inni weld bod staff wedi dechrau'r broses o gwblhau eu hunanasesiadau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***O ystyried y nifer fawr o staff sy'n gweithio yn y practis, dylid ystyried sut y gellid cwblhau'r rhaglen hunanasesu staff, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn arfarniad blynyddol a chynllun datblygiad personol.***

Roedd y sampl o gofnodion cyfarfodydd tîm y gwnaethom eu harchwilio'n glir ac yn rhoi digon o wybodaeth am yr eitemau agenda a drafodwyd. Fodd bynnag, gwnaethom argymell, lle bo hynny'n bosibl, bod cyfarfodydd tîm yn cael eu defnyddio fel ffordd o ddysgu a datblygu.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion a thystysgrifau hyfforddi. Weithiau, roedd rhestrau gwirio wedi cael eu datblygu i fonitro cynnydd, dyddiadau cwblhau, a dyddiadau ar gyfer adnewyddu, er nad oedd y rhain wedi cael eu defnyddio'n gyson. Felly, rydym yn argymell bod y practis yn ystyried defnyddio un system ar gyfer monitro hyfforddiant, sy'n cynnwys yr amlder a argymhellir yn y meysydd penodol hynny. Er bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant, gwelsom nad oedd y rhan fwyaf o'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion – a adwaenir hefyd fel amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw ddyddiadau ar gael ar gyfer y cwrs hwn ar hyn o bryd; felly, gwnaethom argymell defnyddio dull arall megis e-ddysgu, nes bod cwrs ar gael ar gyfer staff y practis.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ystyried defnyddio dull arall o ddarparu hyfforddiant ar oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer staff, nes bod cwrs Deoniaeth Cymru ar gael eto yn 2016.***

Pan wnaethom edrych ar y weithdrefn a ffeil gwyno, gwelsom fod y systemau ar gyfer ymdrin â chwynion ac ymateb iddynt yn unol â threfniadau “Gweithio i Wella” y GIG – sef y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cwynion am  wasanaethau'r

GIG yng Nghymru, gan gynnwys practisau deintyddol. Nid oedd unrhyw gwynion cyfredol, a gwelsom fod y gŵyn ffurfiol ddiwethaf yn 2011.

Gwnaethom drafod y weithdrefn gwyno â rhai aelodau o staff, a gweld pan fydd pobl yn gwneud sylwadau ac yn lleisio pryderon, mae'r rhain yn cael eu cofnodi'n uniongyrchol ar y cyfrifiadur yng nghofnod y claf. Felly, nid oedd yn bosibl dilyn trywydd archwilio o'r nifer o sylwadau anffurfiol a wnaed, ac ynglŷn â pha beth yr oedd y sylwadau hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rydym wedi argymell bod y practis yn cynnal cofnod o unrhyw bryderon a chwynion a leisir, gan gynnwys y rhai ffurfiol a'r rhai anffurfiol. Bydd hyn yn galluogi'r practis i fonitro'r nifer a'r math o faterion a geir, a lle bo hynny'n bosibl, cymryd camau i atal digwyddiadau tebyg.***

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

***Gwelsom fod y practis yn hygyrch, yn addas i'r diben, ac ar y cyfan wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Roedd pob man a welsom yn ystod yr arolygiad yn lân ac yn daclus.***

Lleolir Practis Deintyddol Ffordd Rhiwabon ar brif ffordd ar gyrion canol tref Wrecsam. Nid oes unrhyw leoedd parcio neilltuedig ar gyfer cleifion na staff, ond mae lleoedd parcio ar y strydoedd cyfagos (nad oes cyfyngder amser ar hyn o bryd), neu mewn maes parcio cyhoeddus yn agosach i ganol y dref. Gwnaethom argymell bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y daflen gwybodaeth i gleifion ac ar y wefan.

Gwelsom fod y practis wedi gwneud addasiadau rhesymol eraill i wella hygyrchedd. Roedd canllaw bob ochr i'r pedwar gris sy'n arwain i’r adeilad. Gwelsom hysbysiad a oedd yn cyfeirio cleifion i gefn yr adeilad, lle roedd y fynedfa i'r adeilad yn wastad.

Roedd y dderbynfa, dwy o'r ystafelloedd triniaeth, tŷ bach i gleifion (a oedd yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn), ac ystafell aros fawr wedi'u lleoli ar y llawr daear. Roedd pedair ystafell driniaeth arall, tŷ bach, a man eistedd bach ar y llawr cyntaf. Roedd y swyddfa mewn adeilad ar wahân y tu ôl i'r practis.

Gwnaeth ychydig o'r cleifion a welsom yn ystod yr arolygiad sôn am ddiffyg cylchgronau, ac am y man bach ar gyfer plant a oedd yn arfer bod ar gael. Daeth i'r amlwg yn ystod ein trafodaethau â rheolwyr bod y rhain wedi cael eu symud er mwyn glendid a rheoli heintiau. Fodd bynnag, gwnaethant gytuno i ystyried sylwadau'r cleifion y gwnaethom roi iddynt.

Gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig wedi’i harddangos yn yr ystafell aros mewn ffordd daclus ac amlwg. Dywedodd ychydig o'r cleifion eu bod yn cael y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Fe’n hysbyswyd bod dau lanhawr dynodedig ar gyfer y mannau nad ydynt yn fannau clinigol. Gwnaethom edrych ar yr amserlen lanhau fanwl ac awgrymu y gellid rhannu'r tasgau rhwng y rhai mae'r nyrsys deintyddol yn eu gwneud a'r rhai mae'r glanhawyr domestig yn eu gwneud.

Yn ystod bore'r arolygiad, gwelsom fod tri o'r cypyrddau, ac ynddynt amryw eitemau deintyddol a meddyginiaeth, heb gael eu cloi. Mae'n bosibl y gallai hyn peri risg i ddiogelwch cleifion. Fel arfer, mae AGIC yn uwchgyfeirio canfyddiadau difrifol o dan ein gweithdrefnau sicrwydd ar unwaith. Fodd bynnag, pan wnaethom dynnu sylw'r rheolwyr at y mater hwn, fe gymerwyd camau ar unwaith, ac erbyn canol y prynhawn, gwelsom fod cloeon wedi cael

eu gosod ar y cypyrddau hyn. Trafododd perchennog y practis ei gynlluniau ar gyfer amgylchedd y practis, a oedd yn cynnwys symud rhai o'r eitemau hyn i ystafell arall nad oedd neb ond staff yn cael mynediad ati. Felly, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan AGIC ar yr achlysur hwn.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella.. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Ffordd Rhiwabon yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

**Practis:** **Practis Deintyddol Ffordd Rhiwabon, 96 Ffordd Rhiwabon, Wrecsam, LL13 7PH**

**Dyddiad yr Arolygiad:** **18 Awst 2015**

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | Dylid datblygu proses ffurfiol ar gyfer asesu a gwerthuso adborth gan gleifion ynglŷn â'r gwasanaeth. Lle bo hynny'n bosibl, dylai'r practis ddefnyddio adborth cleifion i yrru newidiadau a gwelliannau a dylanwadu arnynt.<br><br>[Safon Iechyd a Gofal 6.3] | Rhoddir arolwg boddhad ac adborth blynyddol ar gyfer cleifion ar waith trwy ddefnyddio iComply. Ar ôl cwblhau'r arolygon blynyddol, bydd y canfyddiadau'n cael eu hadolygu ac unrhyw feysydd nad ydynt yn bodloni disgwyliadau'n derbyn sylw. Yn ogystal, bydd taflen gofnodi'n cael ei chadw yn y dderbynfa er mwyn sicrhau bod pryderon/cwynion/sylwadau anffurfiol yn cael eu cofnodi. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n | Jayne Taylor | Arolwg blynyddol – ymhen 12 mis; Taflen cofnodi sylwadau – rhoddwyd ar waith eisoes |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | rheolaidd, ac unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu themâu sy'n ailgodi'n derbyn sylw. | | |
| 7 | ***Rhaid sicrhau bod rhestr o'r prisiau am y gwasanaethau deintyddol preifat mae'r practis yn eu cynnig ar gael i gleifion cyn gynted ag y bo modd.***<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 3.2 a 4.2] | Rydym wrthi'n llunio rhestr o brisiau preifat safonol. Byddwn yn ei rhoi ar waith trwy'r holl bractis, ac yn sicrhau ei bod ar gael i gleifion, unwaith mae wedi'i chwblhau. Bydd y rhestr prisiau preifat yn cael ei hintegreiddio i system rheoli cleifion y practis (EXACT), er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am brisiau ar gael i ymarferwyr ar unwaith ac ar bob adeg. | Dan Naylor | Ymhen tri mis |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 9 | *Gwnaethom argymell bod y practis yn cloi drws yr ystafell ddadheintio pan nad yw'n cael ei defnyddio. Bydd hyn yn cynorthwyo i atal y risg o groes-heintio a allai ddigwydd os yw pobl nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant yn mynd i mewn i'r ystafell.*<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.4] | Mae rota staffio'r practis wedi cael ei ddiweddaru yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod yr ystafell ddadheintio yn cael ei staffio gan aelod dynodedig o'r tîm nyrsio bob dydd. O ganlyniad, mae cyfnodau pan na fo aelod o staff yn yr ystafell ddadheintio yn fyr ac yn anaml. Mae clo ar ddrws yr ystafell ddadheintio, ond mae hwn i gael ei ddisodli gan un newydd cyn bo hir. Fel rhan o'r cynlluniau tymor hir i ailwampio'r practis, bydd y drysau mewnol yn cael eu newid. Bydd trefniadau diogelwch ar gyfer yr ystafell ddadheintio'n cael eu hadolygu ar yr un pryd. | Staff nyrsio/Dan Naylor | Ymhen tri mis |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 9 | ***Dylid ystyried prynu bocsys storio, ac iddynt gaeadau neu fewnosodiadau, ar gyfer droriau'r cabinetau yn yr ystafelloedd triniaeth, er mwyn amddiffyn yr offerynnau deintyddol rhag cael eu halogi.***<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.4] | Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n ymchwilio i ffyrdd ymarferol ac effeithiol o ran cost a fydd yn cyflawni'r swyddogaeth hon. Unwaith rydym wedi dod o hyd i rywbeth, fe'i rhoddir ar waith cyn gynted ag y bo modd. | Paula Trow | Ymhen tri mis |
| 10 | ***Gellid gwella'r broses cadw cofnodion trwy sicrhau bod pob deintydd yn cynnwys gwybodaeth/manylion perthnasol yn y meysydd canlynol:***<br><br>***Cydsynio â thriniaeth***<br><br>***Cynlluniau triniaeth ac opsiynau***<br><br>• ***Sgrinio ar gyfer canser*** | Bydd pob deintydd yn derbyn hyfforddiant ychwanegol ynglŷn â'r safonau a'r manylder sydd eu hangen er mwyn cadw cofnodion da.  Bydd y practis hefyd yn cynnal archwiliadau cydymffurfio misol i fonitro cydymffurfiad clinigol parhaus deintyddion â safonau cadw cofnodion, yn ogystal â chynnal sesiynau tiwtorial cyfnodol, yn ôl yr angen, ar y system rheoli cleifion. Bydd y rhain yn cael eu cynnal naill ai mewn grŵp neu'n unigol, i sicrhau bod deintyddion yn gallu manteisio i'r eithaf ar y system, sydd yno i'w helpu i gadw cofnodion. | Dan Naylor | Yn parhau |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | • ***Sganiau radiograffig, gan gynnwys yr adroddiad, y cyfiawnhad, y radd, ac amlder***<br><br>• ***Cyfiawnhad dros alw claf yn ôl (yn unol â chanllawiau NICE***<br><br>• ***Dylid cofnodi manylion anesthetig lleol , er enghraifft rhif y swp a'i ddyddiad dod i ben***<br><br>***Dylid adolygu'r system ar gyfer cadw cofnodion clinigol, i sicrhau bod unrhyw ddiffygion yn y broses yn cael eu nodi, ac y gwneir gwelliannau er mwyn gwella safonau a sicrhau cysondeb rhwng y gwahanol ddeintyddion.***<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 3.4 a 3.5] | | | |
| | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 11–12 | ***Dylid ystyried gwiriadau achlysurol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis. Byddai'r arfer hwn hefyd yn unol â'r Canllawiau ar Ddiogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored mewn Ymarfer Deintyddol Cyffredinol, a gyhoeddwyd gan y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2011.***<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 2.7 a 7.1] | Mae pob aelod o staff clinigol newydd yn cael gwiriad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn iddo ddechrau yn y swydd. Mae'n rhaid i ddeintyddion sy'n gwneud gwaith preifat hefyd gael gwiriad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. | Jayne Taylor | Yn parhau |
| 12 | ***O ystyried y nifer fawr o staff sy'n gweithio yn y practis, dylid ystyried sut y gellid cwblhau'r rhaglen hunanasesu staff, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn arfarniad blynyddol a chynllun datblygiad personol.***<br><br>[Safon Iechyd a Gofal 7.1] | Ar adeg yr arolygiad, roedd y broses arfarnu staff wedi'i rhoi ar waith. Fodd bynnag, oherwydd absenoldeb rheolwr y practis, sydd wedi bod yn y swydd ers tro, a ffactorau eraill, roedd y broses honno wedi cael ei gohirio dros dro. Fodd bynnag, fel rhan o'r gwaith o adolygu ac ailstrwythuro'r practis, bydd contractau'r holl staff yn cael eu hadolygu – yna, bydd y proses arfarnu yn cael ei hailddechrau. | Duncan Paine | Ymhen tri mis |
| 12 | ***Dylai'r practis ystyried defnyddio dull arall o ddarparu hyfforddiant ar oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer staff, nes bod cwrs Deoniaeth Cymru ar gael eto yn 2016.*** | Ar hyn o bryd, rydym yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer trefnu hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer yr holl bractis, ond enwedig ar gyfer deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol. | Jayne Taylor | Ymhen 12 mis |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | [Safonau Iechyd a Gofal 2.7 a 7.1] | | | |
| 13 | ***Rydym wedi argymell bod y practis yn cynnal cofnod o unrhyw bryderon a chwynion a leisir, gan gynnwys y rhai ffurfiol a'r rhai anffurfiol. Bydd hyn yn galluogi'r practis i fonitro'r nifer a'r math o faterion a geir, a lle bo hynny'n bosibl, cymryd camau i atal digwyddiadau tebyg.*** [Safon Iechyd a Gofal 6.3] | Fel y nodwyd ynglŷn â'r pwynt cyntaf ar dudalen saith yr adroddiad, fe gedwir taflen gofnodi yn y dderbynfa, er mwyn cofnodi ac adolygu unrhyw bryderon/cwynion/sylwadau anffurfiol. Bydd cwynion ffurfiol hefyd yn cael eu cofnodi, a'r achosion yn cael eu monitro'n rheolaidd, er mwyn nodi a rhoi sylw i unrhyw broblemau sy'n ailgodi. | Amherthnasol | Cwblhawyd eisoes |
| | Ansawdd yr Amgylchedd | | | |
| | Amherthnasol | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):** **Dan Naylor**

**Teitl:** **Pennaeth y Practis**

**Dyddiad:** **11 Medi 2015**